

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 3)

### Y Bil Amaethyddiaeth

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (RhS) 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
2. Cyflwynwyd y Bil Amaethyddiaeth ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Ionawr 2020 ac mae wedi cwblhau Cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r Memorandwm hwn yn nodi'r diwygiadau perthnasol i'r Bil a wnaed yn ystod y Cam hwnnw. Mae fersiwn ddiweddaraf o'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod y Cyfnod adrodd, i'w gweld yma:

<https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-01/130/5801130.pdf>

3. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Gam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 28 Gorffennaf a bydd bellach yn symud ymlaen i Gyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar ddyddiad i'w gadarnhau yn dilyn toriad yr haf.

### Amcan(ion) Polisi

4. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu, ar gyfer Lloegr, system newydd o dalu ffermwyr yn seiliedig ar yr egwyddor o "arian cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus" ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr a rheolwyr tir.
5. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mesurau i alluogi parhad y cymorth amaethyddol presennol ac i sicrhau bod y sector amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE. Yn benodol, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i alluogi taliadau i barhau i gael eu gwneud i ffermwyr gyda phwerau i symleiddio a gwella Taliadau Uniongyrchol a Datblygiadau Gwledig, er enghraifft, ac i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol os bydd amodau eithriadol yn y farchnad.

### Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
7. Mae'r Bil yn darparu'r sail gyfreithiol, yn Lloegr, i symud oddi wrth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a sefydlu cynlluniau cymorth ariannol newydd yn seiliedig ar egwyddor arian cyhoeddus ar gyfer nwyddau cyhoeddus.
8. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i alluogi parhad y cymorth amaethyddol presennol ac i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol os bydd amodau eithriadol yn y farchnad, fel y nodir uchod, yn ogystal â darpariaethau ar gasglu a rhannu data a marchnata safonau a dosbarthu carcasau. Ar gais Llywodraeth Cymru, bydd y

pwerau hyn ar gael i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru o dan ddarpariaethau Atodlen 5 i'r Bil. Mae'r darpariaethau yn Atodlen 5 (a nifer bach o ddarpariaethau perthnasol) am gyfnod penodol a byddant yn dod i ben ar ddiwedd 2024 yn unol â'r ddarpariaeth yng nghymal 44 (hyd y ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru), fel yr esboniwyd ym mharagraffau 57 a 58 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 12 Chwefror.

9. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaethau ar gynnyrch organig; adnabod anifeiliaid a'r gallu i'w olrhain; sefydliadau sy'n delio'n deg a chynhyrchwyr; materion yn ymwneud â ffermio a chefn gwlad, gan gynnwys ailddosbarthu'r ardoll cig coch a diwygio tenantiaethau amaethyddol; gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno adroddiad i Senedd y DU ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd; a phwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Nid yw'r rhain yn ddarostyngedig i'r ddarpariaeth dod i ben (cymal 44).
10. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Amaethyddiaeth (fel y'i cyflwynwyd ar 16 Ionawr 2020) ar 12 Chwefror. Nododd bryderon ynghylch y darpariaethau yn y Bil ar gyfer adnabod anifeiliaid a'r gallu i'w olrhain (cymal 32) a'r rheoliad ar gynnyrch organig (cymal 36 a 37). Roedd y pryderon hynny yn ymwneud ag absenoldeb darpariaeth briodol a fyddai'n sicrhau bod cydsyniad Gweinidogion Cymru yn ofynnol pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn amgylchiadau penodol, yn arfer pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y darpariaethau hynny.
11. Cyflwynwyd diwygiadau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a chytunwyd arnynt yn ystod Cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ac maent bellach yn rhan o'r Bil.

### **Darpariaethau atodol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

12. Ers cyhoeddi'r Memoranda cyntaf ac atodol, diwygiwyd y Bil yn ystod Cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi.
13. Mae'r Memorandwm Atodol hwn yn nodi'r newidiadau hynny i'r Bil a wnaed yn ystod Cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer. Rhaid ystyried y Memoranda cyntaf ac atodol gyda'i gilydd (gydag unrhyw Femoranda Atodol pellach y gellir eu gosod gerbron y Senedd ar gyfer unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol) wrth benderfynu ar gydsyniad.
14. Mae angen cydsyniad ar gyfer y diwygiadau a ganlyn i ddarpariaethau'r Bil oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig. Mae rhifau'r cymalau isod Yn berthnasol i'r fersiwn o'r Bil a argraffwyd ar 28 Gorffennaf 2020 (y fersiwn fel y'i diwygiwyd yn ystod Cam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi).

### **Cymal 32 (adnabod anifeiliaid a'r gallu i'w olrhain)**

15. Caiff adran 89A ei diwygio fel mai dim ond os yw'r swyddogaethau yn arferadwy mewn perthynas â Chymru y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud gorchymyn yn aseinio swyddogaethau o dan adran 87(1)(b) yn rhinwedd

adran 89A(1) gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Gwneir darpariaethau tebyg ynghylch cymeradwyaeth y gweinyddiaethau datganoledig perthnasol o ran yr Alban a Gogledd Iwerddon.

16. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y diwygiadau hyn oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau eu bod yn berthnasol i Gymru, gan gynnwys amaethyddiaeth ac iechyd anifeiliaid.

#### Cymalau 36 a 37 (cynnyrch organig)

17. Mae adran 37(1A) newydd wedi'i mewnosod fel bod yr Ysgrifennydd Gwladol dim ond yn gallu gwneud rheoliadau o dan adran 36 sy'n cynnwys darpariaeth y gellid ei gwneud o dan yr adran honno gan awdurdod y cyfeirir ato yn adran 37(1)(b) i (d) gyda chydsyniad yr awdurdod hwnnw. Mae hyn yn golygu bod cydsyniad Gweinidogion Cymru yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth drwy reoliadau o dan gymal 36 y gallai Gweinidogion Cymru ei gwneud (fel y pennir yn yr achos hwn drwy gyfeirio at gymhwyster deddfwriaethol y Senedd (cymal 37(1)(c)). Mae diwygiad canlyniadol i gymal 37(1)(a) fel bod y cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau "mewn unrhyw achos" yn cael ei hepgor.
18. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod cydsyniad yn ofynnol ar gyfer y diwygiadau hyn am eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â mater datganoledig. Yn benodol, mae'r diwygiadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau a fyddai o fewn cymhwyster gweithredol Gweinidogion Cymru, a bennir drwy gyfeirio at gymhwyster deddfwriaethol y Senedd.

#### Cymal 42 (Rheoliadau o dan adran 40: categoreiddio cymorth domestig a darparu gwybodaeth)

19. Caiff cymal 42 ei ddiwygio i hepgor cymal 42(4) a (5). Ar hyn o bryd, mae cymal 42(4) yn darparu'n benodol bod pwerau gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 40 yn cynnwys pwerau i'w gwneud yn ofynnol i Weiniogion Cymru (a Gweinidogion yr Alban neu un o adrannau Gogledd Iwerddon) ddarparu gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae cymal 42(5) yn manylu'r wybodaeth a all fod yn ofynnol, gan gynnwys ym mha gyfnodau amser y mae'n rhaid darparu'r wybodaeth.
20. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y diwygiadau hyn yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig, i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru, ar y sail eu bod yn gwneud darpariaeth sy'n "Arsylwi a gweithredu cyfraith ryngwladol", sy'n eithriad i'r mater a ddargedwir sy'n ymwneud â "materion rhyngwladol".
21. Er bod y diwygiadau hyn yn dileu'r pwerau penodol yng nghymal 42 i gael gwybodaeth, gall fod yn bosibl o hyd i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rhywfaint o ddarpariaeth ynghylch rhannu gwybodaeth o dan y pwerau gwneud rheoliadau eang sydd ar gael i'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 40.

## Cymal 53 (cychwyn)

22. Mae'r cymal 53(1) newydd yn darparu bod y pwerau gwneud rheoliadau a roddir gan Rannau 1 i 7 o'r Bil yn cael eu cychwyn ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio, gan gynnwys darpariaethau perthnasol yn yr Atodlenni a gyflwynir gan gymalau yn y Rhannau hynny (hynny yw Atodlenni 1 i 6). Caiff addasiadau i ddeddfwriaeth sy'n rhoi pŵer i wneud rheoliadau neu bŵer i wneud gorchymyn drwy offeryn statudol eu cychwyn hefyd ar ddiwrnod pasio'r Ddeddf, a'r darpariaethau eraill i'r graddau y maent yn effeithio ar y ffordd y caiff y pwerau hyn eu harfer (er enghraifft, drwy ddiffinio mynegiant a ddefnyddir yn y ddarpariaeth sy'n ei roi). Bydd Rhan 8, ar wahân i adran 49 ac Atodlen 7, yn cychwyn ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio.
23. Mae diwygiadau canlyniadol wedi'u gwneud i is-adrannau (2) i (4), sy'n rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru a DAERA gychwyn darpariaethau penodol drwy reoliadau. Mae is-adrannau (2) i (4) wedi'u diwygio i sicrhau nad yw'r pwerau cychwyn hynny yn cynnwys y darpariaethau a restrir yn is-adrannau (2) i (4) i'r graddau y cânt eu cychwyn gan y cymal 53(1) newydd. O ganlyniad, ni fydd Gweinidogion Cymru bellach yn gallu cychwyn y darpariaethau a restrir yng nghymal 53(3)(a) i (c) i'r graddau y cânt eu cychwyn o dan gymal 53(1).
24. Mae'r darpariaethau a gychwynnir yn gyfan gwbl gan yr is-adran (1) newydd wedi'u hepgor o is-adrannau (2) i (4). Yn benodol, mae paragraff 17 o Atodlen 3 a Rhan 4 o Atodlen 5 wedi'u hepgor o bwerau Gweinidogion Cymru i gychwyn drwy reoliadau o dan is-adran (3), gan y byddant bellach yn cael eu cychwyn o dan is-adran (1).
25. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar y diwygiadau hyn oherwydd eu bod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y maent yn ymwneud â'r pwerau gwneud rheoliadau neu wneud gorchymynion datganoledig sydd yn y Bil.

## **Pwerau i greu is-ddeddfwriaeth**

26. Mae'r Atodiad yn disgrifio rhestr o bwerau gwneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru, sydd wedi'u diweddarau rhywfaint ers y Memorandwm a osodwyd ar 12 Chwefror er mwyn ystyried y diwygiadau a wnaed yn ystod Cyfnod Adrodd a Cham Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin fel y'u disgrifiwyd yn y Memorandwm hwn. Diffinnir 'gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol' a 'gweithdrefn penderfyniad negyddol' yng nghymal 47(6)(c) a (7)(c) o'r Bil yn y drefn honno gan fod y termau hynny yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil hwn.

## **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth**

27. Fel y nodwyd yn y Memorandwm cyntaf a'i ail-gadarnhau yn natganiad llafar Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i'r Senedd ar 8

Gorffennaf, bwriad Llywodraeth Cymru yw cyhoeddi Papur Gwyn cyn diwedd 2020 a fydd yn gosod y sylfeini ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru) ("y Bil") i'w gyflwyno yn nhymer y Senedd nesaf (2021/22).

28. Mae manylion unrhyw gynllun newydd yn dibynnu ar ganlyniad penderfyniadau polisi a gweithredol nad oes modd eu gwneud tan fod yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r Papur Gwyn wedi'u dadansoddi a bod yr holl ystyriaethau yn cael sylw.
29. Bydd gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru ym Mil Amaethyddiaeth y DU yn golygu y bydd modd parhau i ddarparu cymorthdaliadau amaethyddol presennol y tu hwnt i 2020, a sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

### **Barn Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

30. Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon â'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi mewn cysylltiad â'r diwygiadau i gymal 32 (adnabod anifeiliaid a'r gallu i'w olrhain), cymal 37 (cynnyrch organig: atodol), cymal 42 a chymal 53.
31. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn fodlon â'r darpariaethau mewn cysylltiad â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth o ran y cytundeb y daethpwyd iddo gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar arfer y pwerau gwneud rheoliadau hynny. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi ymrwymo i gynnwys ymrwymadau'r cytundeb dwyochrog rhwng llywodraethau Cymru a'r DU mewn concordat i'w ddatblygu rhwng llywodraethau'r pedair cenedl, a fydd yn eistedd ochr yn ochr â'r rheoliadau a wneir o dan Ran 6 o'r Bil.
32. Bydd unrhyw newidiadau a wneir i'r Bil wrth iddo symud yn ei flaen drwy Dŷ'r Arglwyddi y bydd angen Memoranda ar eu cyfer, yn enwedig i ymateb i'r pwyntiau a godir wrth i'r Pwyllgor graffu arnynt yn y Senedd, yn cael eu gosod gerbron y Senedd fel y bo'n briodol. Bydd argymhelliad terfynol mewn perthynas â chydysyniad y Senedd yn cael ei ddarparu ar ôl gwneud yr holl ddiwygiadau i'r Bil.

### **Goblygiadau ariannol**

33. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na'r Senedd o ganlyniad i gymryd y pwerau hyn yn y Bil hwn.

### **Casgliad**

34. Mae'r memorandwm atodol hwn yn disgrifio'r newidiadau perthnasol a wnaed i'r Bil ar Gam Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi y mae cydsyniad y Senedd yn ofynnol ar eu cyfer. Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftwyd. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw'n bosibl rhoi argymhelliad pendant i'r Senedd i gydsynio i'r Bil hyd nes ein bod yn agosach at ddiwedd camau diwygio Tŷ'r Arglwyddi. Os bydd diwygiadau yn y dyfodol i wneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig, bydd Memoranda Cydsyniad

Deddfwriaethol Atodol pellach yn cael eu gosod gerbron y Senedd fel y bo'n briodol, gydag argymhelliad gan Lywodraeth Cymru o ran cydsyniad y Senedd ar yr adeg briodol.

**Lesley Griffiths AS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Awst 2020**

## Atodiad

### MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL: Y BIL AMAETHYDDIAETH - RHESTR GYFUNOL O DDARPARIAETHAU SY’N CYNWYS PWERAU I WEINIDOGION CYMRU WNEUD IS-DEDDFWRIAETH FEL Y’U DIWYGIWYD YN YSTOD CYFNOD ADRODD A CHAM PWYLLGOR TŶ’R CYFFREDIN

<u>Darpariaeth yn y Bil</u>	<u>Disgrifiad o’r Pŵer</u>	<u>Gweithdrefn deddfwriaethol</u>
31 (gwrteithiau)	Mae cymal 31(4) yn diwygio adran 74A o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 ac yn caniatáu i reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru (a’r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac Adran yng Ngogledd Iwerddon mewn cysylltiad â rhannau eraill o’r DU) nodi system asesu, monitro a gorfodi i sicrhau bod gwrteithiau yn cydymffurfio â’r gofynion o ran cyfansoddiad, cynnwys a swyddogaeth ac i liniaru risgiau eraill i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion neu’r amgylchedd a berir gan wrteithiau.	Mae’r rheoliadau cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 74A(1A) i (1E) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Bydd unrhyw reoliadau dilynol a wneir gan Weinidogion Cymru, o dan adran 74A(1A)(b) (rhoi i awdurdod cyhoeddus swyddogaethau yn ymwneud ag arsylwi a rheoleiddio marchnadoedd) neu (1E)(a)(i) neu (ii) (diwygio a diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir yn ymwneud â gwrteithiau) hefyd yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (cymal 31(5), diwygio adran 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970). Fel arall, y weithdrefn penderfyniad negyddol sy’n gymwys (gweler adran 84(2), Deddf Amaethyddiaeth 1970).
33 (ardoll cig coch)	Pwerau i Weinidogion Cymru (yn gweithredu ar y cyd â’r Ysgrifennydd Gwladol a/neu Weinidogion yr Alban) lunio cynllun i wneud darpariaeth ar gyfer faint o ardoll cig coch a gesglir gan y corff ardollau ar gyfer un wlad ym Mhrydain Fawr i’w thalu i gorff ardollau ar gyfer gwlad arall o’r fath.	Dim gweithdrefn
36 a 37 (cynnyrch organig)	Pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardystio cynnyrch organig a rheolaethau mewnforio ac allforio (os ac i’r graddau y byddai’r ddarpariaeth honno a wneir drwy’r rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os yw wedi’i chynnwys mewn Deddf gan y Senedd (gan anwybyddu unrhyw ofynion am gydsyniad unrhyw berson) (cymal 37(1)(c)).	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol pan— (a) bod y rheoliadau yn cael eu gwneud o dan adran 36(1) ac yn cynnwys darpariaeth y cyfeirir ati yn adran 36(3), neu (b) bod y rheoliadau yn cael eu gwneud o dan is-adran (1), (5) neu (7) o adran 36 a’r

		rheoliadau hynny yw'r cyntaf i'w gwneud o dan yr is-adran gan yr awdurdod sy'n eu gwneud. Fel arall, mae rheoliadau a wneir o dan gymal 36 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 47(5) yn gymwys ac os felly, defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol).
44 (hyd y ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn cysylltiad â'r adran hon.	Mae rheoliadau o dan y cymal hwn sy'n cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol (gyda deddfwriaeth arall neu hebddi) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau eraill o dan y cymal hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
50(1) (darpariaeth ganlyniadol etc)	Caiff yr awdurdod priodol drwy reoliadau wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf hon. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, ar gyfer darpariaeth mewn cysylltiad ag— (i) adran 32(3) a (4), i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru, (ii) cymal 43 ac Atodlen 5, (iii) cymal 44, a (iv) cymal 49 ac Atodlen 7 i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru.	Mae rheoliadau o dan adran 50(1) sy'n cynnwys darpariaeth yn addasu deddfwriaeth sylfaenol (gyda darpariaeth arall neu hebddi) yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau eraill o dan is-adran (1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
50(5) (darpariaeth ganlyniadol etc)	Caiff yr awdurdod priodol drwy reoliadau wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf yn dod i rym. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, ar gyfer unrhyw ddarpariaeth mewn cysylltiad ag— (i) adran 32(3) a (4), i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru, (ii) cymal 43 ac Atodlen 5, (iii) cymal 44, a (iv) cymal 49 ac Atodlen 7 i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru.	Dim gweithdrefn
53(3) (cychwyn)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau a wneir gan offeryn statudol i benodi— (a) i'r graddau y maent yn ymwneud â Chymru— (i) adran 32(3) a (4), (ii) paragraffau 10 i 18 o Atodlen 3, a (iii) adran 34 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny, (b) Rhannau 2 a 4 o Atodlen 5, ac adran 43 i'r	Dim gweithdrefn



	graddau y maent yn ymwneud â'r Rhannau hynny, ac (c) Rhannau 2 a 4 o Atodlen 7, ac adran 49 i'r graddau y maent yn ymwneud â'r Rhannau hynny.	
Atodlen 3, paragraff 6(7)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau a wneir mewn offeryn statudol i ddiwygio adran 84 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn- a) cynnwys person yn y diffiniad o "awdurdod proffesiynol", neu ei ddileu ohono; b) adlewyrchu newidiadau i enw neu sefydliad mewnol unrhyw gorff a sonnir yn y diffiniad hwnnw.	Y weithdrefn negyddol
Atodlen 3, paragraff 7	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i denant daliad amaethyddol gyfeirio ar gyfer ceisiadau cymrodeddu a wneir gan y tenant ar gyfer cydsyniad landlord neu amrywio telerau.	Y weithdrefn negyddol
Atodlen 3, paragraff 17	Mae paragraff 17 yn diwygio adran 39(8) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 i roi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, wneud rheoliadau yn pennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu pa mor addas yw'r person i ddod yn denant daliad.	Y weithdrefn negyddol
Atodlen 5, paragraff 2(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth llywodraethu cynllun y taliad sylfaenol.	Y weithdrefn negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, paragraff 3(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer parhau cynllun y taliad sylfaenol y tu hwnt i 2020, gan gynnwys pŵer i ddarparu ar gyfer uchafswm taliadau uniongyrchol Cymru i'w wneud gan Weinidogion Cymru.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, paragraff 4(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ac is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Y weithdrefn negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, paragraff 5(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig ac is-ddeddfwriaeth yn ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, paragraff 8(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion addasu gweithrediad darpariaethau deddfwriaeth o'r fath, i'r graddau y cânt effaith o ran Cymru mewn cysylltiad ag amodau eithriadol yn y farchnad sy'n ddarostyngedig i ddatganiad o dan baragraff 6	Y weithdrefn negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)

	o Atodlen 5 (datganiad yn ymwneud ag amodau eithriadol yn y farchnad).	
Atodlen 5, paragraff 8(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion penodedig.	Y weithdrefn negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly defnyddir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, paragraff 9(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n rhan o gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth, neu sy'n gysylltiedig yn agos â chadwyn o'r fath, ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â gweithgareddau unrhyw un neu ragor o'r personau sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi i'r graddau y mae'r gweithgareddau yng Nghymru.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, paragraff 14(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth i ofodi gofyniad a osodir o dan baragraff 9(1) neu (2) o Atodlen 5 (cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth: gofyniad i ddarparu gwybodaeth).	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, paragraff 15(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, mewn perthynas â chynnyrch sy'n dod o dan sector penodedig ac sy'n cael eu marchnata yng Nghymru, wneud darpariaethau ynghylch y safonau y mae'n rhaid i'r cynnyrch eu bodloni.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, paragraff 16(3)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu paragraffau 15 a 16 at ddibenion neu mewn cysylltiad ag— (a) ychwanegu neu ddileu cynnyrch amaethyddol o baragraff 16(1); (b) addasu disgrifiad cynnyrch amaethyddol ym mharagraff 16(1).	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, paragraff 17(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth am ddsbarthu, adnabod a chyflwyno carcasau buchol, moch a defaid gan ladd-dai yng Nghymru.	Y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol